

Cyfrinachedd: ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau

- 1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* rydym yn nodi:
 - 1 Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng meddyg a chlaf ac mae cyfrinachedd yn ganolog i hyn. Efallai y bydd cleifion yn osgoi ceisio help meddygol, neu efallai na fyddant yn rhoi disgrifiad llawn o'u symptomau, os byddant yn credu y bydd meddygon yn datgelu eu gwybodaeth bersonol heb eu caniatâd, neu os na fyddant yn cael y cyfle i gael rhywfaint o reolaeth dros yr amseru neu swm y wybodaeth a rennir.

Am yr arweiniad hwn

- 2 Weithiau, caiff meddygon eu beirniadu mewn cyfryngau argraffedig neu gyfryngau a ddarlledir neu ar gyfryngau cymdeithasol¹ gan eu cleifion² neu gan rywun sy'n agos i glaf neu sy'n cynrychioli claf. Gall y feirniadaeth gynnwys manylion anghywir neu gamarweiniol ynghylch diagnosis, triniaeth neu ymddygiad y meddyg.
- 3 Er bod hyn yn gallu peri rhwystredigaeth neu ofid, nid yw'n eich rhyddhau chi o'ch dyletswydd i barchu cyfrinachedd eich claf. Mae'r arweiniad esboniadol hwn yn nodi sut y mae'r egwyddorion cyffredinol yn ein harweiniad *Cyfrinachedd* yn berthnasol pan fydd meddygon yn ystyried sut i ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau.

Ymateb i feirniadaeth

- 4 Gall datgelu gwybodaeth am glaf heb sicrhau eu caniatâd danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn, yn ogystal ag ymddiriedaeth eich claf yn och chi. Yn ogystal, mae anghydfodau rhwng cleifion a meddygon a gynhelir mewn ffordd gyhoeddus yn gallu ymestyn neu ddwysáu gwrthdaro, ac mae'n gallu tanseilio hyder y

cyhoedd yn y proffesiwn, hyd yn oed os nad ydynt yn cynnwys y cam o ddatgelu gwybodaeth bersonol heb sicrhau caniatâd.

- 5 Ni ddylech gyhoeddi gwybodaeth yr ydych chi wedi'i chael dan amodau cyfrinachol heb sicrhau caniatâd penodol y claf hwnnw. Fel arfer, dylech gyfyngu eich ymateb cyhoeddus i esboniad o'ch dyletswydd cyfrinachedd cyfreithiol a phroffesiynol.
- 6 Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gallai adroddiadau yn y cyfryngau neu ar gyfryngau cymdeithasol beri i gleifion deimlo'n bryderus am eich arferion, neu arferion gwasanaeth iechyd y mae gennych gyswllt gydag ef. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yn briodol rhoi gwybodaeth gyffredinol am eich arferion arferol. Rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn datgelu gwybodaeth bersonol am glaf neu'n rhoi adroddiad am eu gofal, heb sicrhau eu caniatâd. Os byddwch yn gwadu honiadau sy'n ymddangos yn y wasg gyhoeddus, rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn datgelu, yn uniongyrchol neu trwy hepgor neu ensynio, unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol am y claf, ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol mewn datganiad gwadu syml.
- 7 Dylech geisio cyngor eich corff proffesiynol neu'ch corff amddiffyn, neu gyngor cyfreithiwr, ynghylch sut i ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau ac, os yw hynny'n briodol, unrhyw iawndal cyfreithiol sydd ar gael i chi.

Endnotes

- 1 Gweler hefyd ein harweiniad *Defnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol*. Mae modd i chi weld ein holl arweiniad ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 2 Yn yr arweiniad hwn, mae'r gair 'claf' yn cyfeirio at gleifion presennol a chyn gleifion.